

Rwy'n hynod falch o allu gwneud cais i astudio'r Meistr yn y Gwyddorau mewn Bioleg Feddygol yn [Enw'r Brifysgol]. Wrth imi nesáu at gwblhau fy ngradd yn y Biowyddorau ym Mhrifysgol Caerdydd, nid yn unig yr awydd i ddyfnhau fy nealltwriaeth o fioleg feddygol sy'n fy ysgogi i, ond hefyd y syniad o gyfrannu at ymchwil arloesol yn y maes hwn.

Drwy gydol fy nhaith academaidd, rwy' wedi meithrin diddordeb mawr mewn deall y mecanweithiau cellog a moleciwlaidd sydd wrth wraidd gwahanol glefydau, yn enwedig y rheiny sy'n gysylltiedig ag oncoleg. Taniwyd y diddordeb hwn ymhellach gan brosiectau ymchwil ymarferol a gwaith cwrs a wnaeth drin a thrafod y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ddiagnosteg clefydau a datblygiadau therapiwtig. Mae potensial bioleg feddygol i fynd i'r afael â heriau iechyd o bwys a gwella lles y gymuned yn parhau i ysbrydoli fy nyheadau academaidd a gyrafaol.

Rwy'n cael fy nenu'n arbennig at y cwrs hwn ym Mhrifysgol [Enw'r Brifysgol] oherwydd ei chyfadran o fri, ei chyfleusterau o'r radd flaenaf, a'i chysylltiadau cryf ag ystod eang o sefydliadau ymchwil. Mae ymrwymiad y cwrs i integreiddio ymchwil fiolegol uwch gyda chymwysiadau clinigol ymarferol yn arbennig o atyniadol. Rwy'n awyddus i weithio dan arweiniad [Enw'r Athro], oherwydd mae ei waith arloesol ym maes [maes penodol] wedi cael dylanwad mawr ar y maes hwnnw. Mae'r cyfle hwn i allu cyfrannu at astudiaethau cyfredol ac ymdrochi mewn amgylchedd ymchwil cydweithredol yn hynod o apelgar.

Yn ystod fy interniaethau, gan gynnwys lleoliad gwaith sylweddol yn [Sefydliad Ymchwil], fe wnes i feistroli technegau, er enghraifft RNAi a chlonio DNA, a oedd yn hollbwysig i'r cyfraniadau a wnes i at ein prosiect ar sbardunau genetig mewn celloedd canser. Nid yn unig mireinio fy sgiliau cyflwyno a wnaeth cyflwyno ein canfyddiadau yn [Lleoliad], ond hefyd atgyfnerthu fy ngallu i drafod ymchwil gymhleth gydag amryw gynulleidfaoedd gwyddonol.

Ochr yn ochr â'm gweithgareddau academaidd ac ymchwil yn y brifysgol, roeddwn i hefyd yn Llywydd y Clwb Amgylcheddol. Nid yn unig datblygu fy ngwybodaeth am fioleg ecolegol a wnaeth y rôl hon, ond hefyd rhoi min ar fy sgiliau arwain a rheoli prosiectau. Gwnes i drefnu nifer o fentrau cynaliadwyedd a digwyddiadau mawr megis digwyddiadau clirio ar y campws a gweithdai addysgol, gan wella fy ngalluoedd wrth gydlynu tîm a siarad yn gyhoeddus. Mae'r profiadau o'r fath wedi hogi fy sgiliau wrth reoli prosiectau cymhleth a hyrwyddo gwaith tîm, sy'n hanfodol at ddibenion arwain ymchwil wyddonol. Mae fy effeithiolrwydd wrth ymgysylltu â grwpiau amrywiol yn dangos fy mod i'n barod ar gyfer y gofynion cydweithio a rhyngddisgyblaethol sydd ynghlwm wrth astudiaethau gwyddonol uwch ym maes bioleg feddygol.

Mae byw ac astudio mewn tair gwlad wedi magu natur hyblyg a gwydn ynof, gan fy ngalluogi i lywio heriau academaidd a'r amrywiaeth ddiwylliannol yn y cwrs hwn. Mae'r profiadau hyn wedi fy mharatoi i ragori mewn amgylchedd deinamig a heriol a dod â phersbectif unigryw i'ch corff amrywiol o fyfyrwr.

Bydd y cwrs hwn hefyd o fudd imi gyrraedd fy nodau gyrafaol yn y tymor hwy, wrth imi anelu at fanteisio ar y cyfleoedd hyfforddiant a'r ymchwil trwyadl yn [Enw'r Brifysgol], gyda'r gobaith o symud ymlaen i astudio PhD. Fy nod yn y pen draw yw arwain ymchwil sy'n pontio'r bwlch rhwng darganfyddiadau yn y labordy a datrysiadau clinigol, yn enwedig mewn cymunedau heb wasanaeth digonol.

Rwy'n hyderus bod fy nghefnidir a'm sgiliau yn cyd-fynd yn dda â gofynion y cwrs hwn. Rwy'n edrych ymlaen at y posibilrwydd o gyfrannu at eich cymuned o fri a thyfu ynddi.